CYNLLUN PONTIO

Clwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

2024 – 2025

Rhesymeg

Mae’n ofynnol i bob ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a phob un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo iddi, a gynhelir gan awdurdod lleol, lunio cynlluniau ar y cyd i hwyluso'r broses o bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar gyfer y disgyblion yn yr ysgolion cynradd hynny sy'n cael eu derbyn i'r ysgol uwchradd. Dylai cyrff llywodraethol pob ysgol o fewn y clwstwr gyd-weithio i lunio’r cynllun yn unôl â gofynion Gweinidogion Cymru, dan adran 198(1) o Ddeddf 2002.

Cyhoeddir y cynllun pontio cyn y 1af o Fedi 2022, ac ar ôl hynny, ar neu cyn y 1af o Fedi yn y flwyddyn ysgol mae’r cynllun yn cael ei weithredu.

Lluniwyd y cynllun yma gan benaethiaid ysgolion clwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 6 Gorffennaf 2024 a fydd yn cychwyn yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar y 2il o Fedi 2025.

Cytunwyd gan gyrff Llywodraethol ysgolion clwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Dyddiad cytuno: 1-07-2024

Dyddiad adolygu: 1-07-2025

Gweledigaeth

- Mae'r clwstwr yn ymfalchio yn ein Cymreictod a'n hunaniaeth gan annog ymdeimlad o berthyn i'n cynefin a'n cymuned lleol mewn ardal o Gymru sy'n unigryw o ran diwylliant, cymdeithas a hanes.
- Mae creu cymuned hapus, caredig a chwrtais o fewn y clwstwr, lle mae parch tuag at hawliau ein gilydd, yn sicrhau tegwch, cydraddoldeb ac ecwiti i bawb.
- Mae cymdeithas y clwstwr yn datblygu pob unigolyn i deithio'r llwybr llwyddiant, gan annog uchelgais, ysbrydoli dyheadau a meithrin agweddau gweithgar, diwyd i ddysgu gydol oes.
- Rydyn ni'n anelu at y ser wrth ddarparu dysgu dilys, pwrpasol ac uchelgeisiol gyda chysylltiad emosiynol trwy ystod o brofiadau cyfoethog.
- Rydyn ni'n cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu'n unigolion iach, hyderus a gwydn trwy meithrin lles emosiynol, ysbrydol a chorfforol.
- Mae'r clwstwr yn creu dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n meddwl ac yn cwestiynu'n athronyddol, yn dangos empathi i eraill ac yn ymddiddori mewn materion sy'n ymwneud â'u hardal leol a thu hwnt.
- Rydyn ni'n paratoi dysgwyr ar gyfer eu dyfodol wrth ddysgu i fod yn annibynnol, yn greadigol ac yn fentrus.

Ysgolion Clwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

Y mae 5 ysgol gynradd o fewn clwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed gyda disgyblion o 4 ysgol yn mynychu Ysgol Gyfun Gwent Is Coed eleni;

Ysgol Gymraeg Y Ffin, Mynwy
Ysgol Gymraeg Casnewydd, Casnewydd
Ysgol Gymraeg Ifor Hael, Casnewydd
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon, Casnewydd
Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, Casnewydd

Mae'r cydweithio rhwng yr holl ysgolion yn hanfodol er mwyn cynnal safonau uchel ar draws y clwstwr a sicrhau bod y trefniadau pontio yn effeithiol. Mae'r cydweithio yn anelu at sicrhau fod pob disgybl sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn Awdurdod Addysg Casnewydd ac o Dde Sir Fynwy yn derbyn cyfleoedd addysgiadol o'r radd uchaf sy'n eu galluogi i wireddu eu potensial.

Hyd y mae iaith Gymraeg a hyd y tyf hadau teg

Dafydd ap Gwilym

Trwy gydweithio mae'n bosib cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau yn yr ysgolion cynradd ac yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i hybu datblygiad disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion a hwyluso'r broses pontio. Yn yr un modd, mae cysondeb o ran asesu ar draws y clwstwr yn ein galluogi i roi disgyblion yn y dosbarthiadau dysgu mwyaf addas ar gyfer eu gallu academaidd.

Cynllun Pontio o'r ysgolion cynradd i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

Bwriadwn sicrhau fod pob disgybl yn dechrau eu cyfnod yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn frwdfrydig i ddatblygu ymhellach ac i adeiladu ar y cynnydd y maent eisoes wedi ei wneud yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a'r ysgolion cynradd yn gweithio'n agos iawn wrth rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau er mwyn sicrhau fod cyfnod cychwynnol y disgyblion yn yr ysgol uwchradd yn un hapus a llwyddiannus.

Mae'r trefniadau pontio yn cynnwys;

- Cyfarfodydd Pontio
- Trosglwyddo Gwybodaeth
- Nosweithiau Rhieni
- Gweithgareddau ac ymweliadau Pontio
- Cysylltiadau gyda'r Mentrau Iaith yng Nhasnewydd a Mynwy
- Gwybodaeth Diogelu plant
- Gwybodaeth ADY
- Cyd-gynllunio Cwricwlwm i Gymru

Dyddiadau pwysig

Dyddiad	**Digwyddiad**	**Pwy sy'n gyfrifol?**	**Gwybodaeth**
Medi	Blwyddyn 7 yn ymweld â Llangrannog	Arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7	Dysgwyr blwyddyn 7 yn cael y cyfle i gyfarfod â ffirindiau newydd wrth brofi gweithgareddau cymdeithasol a llesol drwy gyfrwng y Gymraeg
Hydref	Blwyddyn 5 y clwstwr yn ymweld â Llangrannog	Penaethiaid cynradd	Dysgwyr blwyddyn 5 ar draws y clwstwr yn cael y cyfle i gyfarfod â ffirindiau newydd wrth brofi gweithgareddau cymdeithasol a llesol drwy gyfrwng y Gymraeg

Rhagfyr	Cyngerdd Nadolig	Maes Celfyddydau Mynegiannol YGGIC ac athrawon blwyddyn 6 ysgolion clwstwr	Dysgwyr blynyddoedd 6 a 7 yn cyfrannu tuag at ac yn mwynhau cyngerdd Nadolig yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
Hanner tymor 3	HMS Clwstwr	Penaethiaid y clwstwr	Cydweithio ar gyd-gynllunio a sicrhau dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru
Tymor y Pasg	Ymweliad cynradd	Arweinwydd lles a chynnydd blwyddyn 7 a dysgwyr blwyddyn 7 yn ymweld â'r ysgolion cynradd	Dysgwyr blwyddyn 7 yn ymweld â'r cynradd er mwyn trafod eu profiadau
Tymor y Pasg	Cyfarfodydd CADY y clwstwr	CADY ysgolion y clwstwr	Cyfarfodydd yn digwydd pob hanner tymor ond agenda hanner tymor 4 yn cynnwys trafodaeth am ddysgwyr bregus
Tymor y Pasg	Rhannu gwybodaeth a phenderfynu ar ddysgwyr sy'n derbyn pontio estynedig	Arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7, CADY YGGIC a CADY yr ysgolion cynradd	Cyfarfodydd ar Teams wedi'u hamserlenni
Tymor y Pasg (Mawrth)	Athro cerddoriaeth a drama YGGIC yn cyfarfod gyda dysgwyr cynradd cyn cychwyn ymarferion Trysor Gwent ar Teams	Maes Celfyddydau Mynegiannol YGGIC ac athrawon blwyddyn 6 ysgolion clwstwr	Cryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgolion cynradd a'r maes Celfyddydau Mynegiannol yn YGGIC
Hanner tymor 4	Trysor Gwent	Athrawon blwyddyn 6 y clwstwr	Cyfle i ddysgwyr blwyddyn 6 ddod at ei gilydd i berfformio y ddrama gerdd Trysor Gwent yn YGGIC
Hanner tymor 5	Nosweithiau pontio estynedig (pob ysgol arwahan)	Arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7 a CADY YGGIC	Rhieni a dysgwyr bregus yn ymweld â'r ysgol
Hanner tymor 5	Ymweliad preswyl blwyddyn 6 (Abernant)	Penaethiaid cynradd	Cyfle i ddysgwyr blwyddyn 6 ddod i adnabod ei gilydd a gwneud gweithgareddau iechyd a lles
Hanner tymor 6	Trosglwyddo gwybodaeth	Athrawon blwyddyn 6	Athrawon blwyddyn 6 yn trosglwyddo gwybodaeth i arweinydd lles a chynnydd blwyddyn sef; ● gwybodaeth sims sy'n cynnwys; ymrwymiad

			rhieni, diogelu, lles, trochi, ymgysylltu o bell ● sgorau asesiadau personol ● lliwiau CiG
Hanner tymor 6	Diwrnod pontio estynedig dysgwyr bregus (2 ddiwrnod)	Arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7 a CADY YGGIC	Dysgwyr bregus yn ymweld â'r ysgol
Hanner tymor 6	Trafod y wybodaeth sydd wedi'i drosglwyddo o'r cynradd	Arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7, CADY YGGIC ac athrawon blwyddyn 6	Trafod dysgwyr (gwybodaeth ychwanegol) gan gynnwys trosgwlyddo lluniau
Hanner tymor 6	Diwrnod pontio	Athrawon YGGIC	Cyfle i ddysgwyr blwyddyn 6 gael gwersi yn yr ysgol uwchradd
Hanner tymor 6	Noson rhieni blwyddyn 6	Pennaeth YGGIC, arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7, arweinwyr MDaPh YGGIC	Cyfle i rieni a dysgwyr blwyddyn 6 i glywed gan y MDaPh a profi gweithgareddau fydd yn digwydd yn yr ysgol
Hanner tymor 6	Noson rhieni blwyddyn 5	Pennaeth YGGIC, arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7	Cyfle i rieni blwyddyn 6 i glywed am yr ysgol a derbyn taith o gwmpas y safle

Cyfarfodydd Pontio

Cynhelir cyfarfodydd pontio pob hanner tymor. Bydd Pennaeth Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a Phenaethiaid yr ysgolion cynradd yn mynychu'r cyfarfodydd yma. Trafodir gweithdrefnau a threfniadau pontio yn ogystal â methodolegau ac adnoddau addysgu. Mae rhannu arfer dda yn greiddiol i'r cyfarfodydd.

Cynhelir cyfarfod ar ôl hanner tymor y Sulgwyn er mwyn trafod dosbarthiadau dysgu disgyblion blwyddyn 7 mis Medi. Bydd arweinydd lles a chynnydd a CADY Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ac athrawon blwyddyn 6 yn mynychu.

Trosglwyddo Gwybodaeth

Yn ystod y flwyddyn academaidd trosglwyddir gwybodaeth o'r ysgolion cynradd i Ysgol Gyfun Gwent is Coed. Mae hyn yn cynnwys;

- Gwybodaeth ansoddol am ddisgyblion yn ystod trafodaethau rhwng arweinydd lles a chynnydd a CADY Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ac athrawon blynyddoedd 5 a 6 – rhan o'r broses ffurfio dosbarthiadau dysgu blwyddyn 7.
- Craffu ar lyfrau ar y cyd.

- Gwybodaeth ansoddol a meintiol am ddisgyblion ADY yn ystod trafodaethau rhwng CADY Ysgol Gwent Is Coed a CADY yr ysgolion cynradd yn yr ysgolion unigol – rhan o'r broses ffurfio dosbarthiadau dysgu blwyddyn 7.
- Gwybodaeth ansoddol a meintiol am ddisgyblion sydd wedi bod yn y Ganolfan Drochi 'Anturiaithwyr' yn Ysgol Nant Gwenlli a dosbarth Blodeuwedd yn Ysgol Y Ffin yn ystod trafodaethau rhwng arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7, CADY YGGIC ac athrawon blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd – rhan o'r broses ffurfio dosbarthiadau dysgu blwyddyn 7.
- Gwybodaeth feintiol am gyrhaeddiad dysgwyr blwyddyn 6 sy'n cynnwys sgorau yn y profion llythrennedd.
- Sgorau Safonol yr asesiadau llythrennedd a rhifedd personol - allweddol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion blwyddyn 7.
- Ffeiliau CTF yn cael eu trosglwyddo drwy sims.net ym Mehefin. Mae'r rhain yn cynnwys manylion personol y disgyblion.
- Gwybodaeth Lles Disgyblion.
- Defnyddir ffurflenni pwrpasol a ddatblygwyd gan yr ysgolion cynradd at y pwrpas yma.

Bydd arweinydd lles a chynnydd a CADY Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn ymweld â phob ysgol gynradd yn rheolaidd i drafod cynlluniau ymyrraeth/cefnogaeth ychwanegol yr ysgolion ac i drafod disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6 gyda'u hathrawon. Byddant yn adnabod arferion da o ran y gynhaliaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion ac yn rhannu'r arfer dda yma gydag ysgolion eraill ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Byddant yn adnabod y disgyblion hynny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion lle mae pryderon o ran presenoldeb a gofidiau o ran datblygiad personol a chymdeithasol (Cau'r Bwlch). Yn yr un modd, byddent yn adnabod disgyblion MATh a'r dysgyblion hynny sydd wedi bod yn yr uned drochi.

Nosweithiau Rhieni Pontio

Cynhelir nosweithiau pontio yn ystod cyfnod disgybl ym mlynyddoedd 5 a 6.

Yn ystod hanner tymor 6 gwahoddir rhieni blwyddyn 5 i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed am noson o gyflwyniad i'r ysgol a'r adeiladau. Bydd y rhieni yn cwrdd ag arweinwyr yr ysgol. Rhoddir cyflwyniad canolog i egluro trefniadaeth yr ysgol a bydd taith o gwmpas yr ysgol o dan ofal arweinwyr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Yn ogystal, ceir cyfle i'r rhieni ofyn cwestiynau ac i drafod ymhellach mewn grwpiau llai ac yn anffurfiol wrth gerdded o gwmpas y safle.

Ar ddiwedd y diwrnod pontio yn ystod ail hanner tymor yr haf (Mehefin), cynhelir noson bontio ar gyfer rhieni blwyddyn 6. Bydd y meysydd dysgu a phrofiad yn trefnu gweithgareddau sy'n rhoi blas i'r rhieni a'r disgyblion am yr hyn yr astudir ym mlwyddyn 7 a darperir cyfle i'r rhieni ymweld â'r siop wisg ysgol a talu blaendal am y daith i Langrannog.

I gyd-fynd â'r nosweithiau pontio bydd Prospectws yn cael ei ddosbarthu drwy law'r ysgol, a thrwy ebost sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth Ysgol Gwent Is Coed a rhai polisïau allweddol.

Trwy gynnal cynllun mentora effeithiol ar draws y clwstwr fe fydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn elwa o weithgareddau a gynllunnir ar draws y clwstwr er mwyn hybu disgyblion yn ôl eu dawn, gallu neu anghenion personol.

Gweithgareddau Pontio

Diwrnod Pontio Cyffredinol

Yn ystod ail hanner tymor yr haf (Mehefin) bydd pob disgybl ym mlwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd yn ymweld âc Ysgol Gyfun Gwent Is Coed am ddiwrnod. Bydd y disgyblion yn derbyn amserlen a byddant yn mynychu gweithgareddau fesul dosbarth dysgu Blwyddyn 7. Bydd y gweithgareddau wedi eu cynllunio fel y bo'r disgyblion yn derbyn profiadau na fyddent wedi'u derbyn yn yr ysgol gynradd ond fydd ar gael iddynt ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Gwent is Coed.

Cynllun Pontio Ychwanegol

Trwy drafod gyda CADY yr ysgolion cynradd bydd staff Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn derbyn gwybodaeth am holl ddisgyblion yr ysgolion cynradd sydd gydag ADY dwys. Bydd CADY Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedyn yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn unigol er mwyn derbyn gwybodaeth mwy cynhwysfawr a phenodol fel eu bod yn gallu blaen gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny.

Bydd disgyblion blwyddyn 6 sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys yn derbyn cefnogaeth bontio ychwanegol. Byddent yn derbyn gwahoddiad i ddod yn rheolaidd i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed a byddent yn dod yn gyfarwydd gyda'r athrawon, cynorthwywyr dosbarth ac amgylchedd yr ysgol cyn iddynt gychwyn ym mis Medi.

Diwrnodau Pontio Estynedig

Trwy gydweithio gydag athrawon blwyddyn 6 byddwn yn adnabod y disgyblion mwyaf anghenus o fewn yr ysgolion cynradd. Trefnir ymweliadau a gweithgareddau pwrpasol yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion yma brofi gwersi yn yr ysgol uwchradd yn ogystal â chael cyfleoedd i ddatblygu yn gymdeithasol a chreu ffrindiau newydd. Bydd y gweithgareddau yma yn hybu uchelgais a hyder ein disgyblion.

Cwricwlwm i Gymru (CiG)

Cynllunir diwrnodau HMS, a chyfarfodydd Dysgu Proffesiynol ar y cyd er mwyn bod grwpiau o staff yr holl ysgolion yn y clwstwr yn cydweithio er mwyn cynllunio cwricwlwm cydlynus a dilyniannol rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd o fewn y 6 maes dysgu a phrofiad. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ar draws y clwstwr ystyried Dysgu ac Addygu o'r ansawdd uchaf, er mwyn mireinio ar, a gwella eu hymarfer ei hun gyda'r diben o gael yr effaith mwyaf ar gynnydd dysgwyr. Mae'r gwaith yma'n parhau mewn cyfarfodydd dysgu proffesiynol sy'n digwydd pob hanner tymor ac yn y cyfarfodydd clwstwr CiG fydd hefyd yn digwydd pob hanner tymor e.e Y Rhwydwaith Llythrennedd. Bydd agenda cyson a brîff pwrpasol ar gyfer pob un o'r cyfarfodydd yma.

Trwy gydweithio a chyd-gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu'n llwyddiannus bydd parhad yn y dysgu ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 6 wrth iddynt symud i flwyddyn 7. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r gwaith dylunio cwricwlaidd er mwyn sicrhau bod y parhad yn y dysgu rhwng blwyddyn 6 a blwyddyn 7 yn effeithiol.

Cystadlaethau'r Urdd

Cynhelir amrywiaeth o gystadlaethau ar draws clwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed e.e. chwaraeon ac Eisteddfod rhanbarthol. Defnyddir safle Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar gyfer hyn sy'n ei dro yn arf ychwanegol yn ein cynllun cytûn ar gyfer pontio effeithiol rhwng yr ysgolion cynradd ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Bydd mynychu'r gweithgareddau hyn yn cynorthwyo'r disgyblion i ymgartrefu yn gyflym ac yn esmwyth gan eu bod eisoes yn gyfarwydd â safle yr ysgol.

Cyfrifoldebau

Pennaeth, arweinydd lles a chynnydd a CADY Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

- Mynychu cyfarfodydd pontio
- Cydlynu bod yr ysgolion cynradd yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn defnyddio hyn wrth ffurfio dosbarthiadau dysgu
- Arwain yn ystod y nosweithiau rhieni yn nhymor yr haf
- Cydweithio gyda staff ysgolion cynradd y clwstwr wrth ddysgu am am ddisgyblion blwyddyn 6 a ffurfio dosbarthiadau dysgu
- Diogelu Plant - codi ymwybyddiaeth

Penaethiaid Cynradd

- Mynychu cyfarfodydd pontio
- Cyfathrebu gyda staff Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ac athrawon blwyddyn 6 wrth drosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion.

Athrawon Blwyddyn 6

- Trosglwyddo gwybodaeth meintiol ac ansoddol i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
- Trafod disgyblion gyda staff Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
- Mynychu cyfarfod yn ystod tymor yr Haf i drafod dosbarthiadau dysgu blwyddyn 7 mis Medi

CADY Gwent Is Coed

- Trafod disgyblion ADY yr ysgolion cynradd gyda'r staff

- Mynd i'r ysgolion cynradd i drafod gyda'r CADY er mwyn casglu gwybodaeth cynhwysfawr a phenodol am ddisgyblion ADY
- Mynychu adolygiadau blynyddol ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 5 a 6 yr ysgolion cynradd
- Trefnu'r Cynllun Pontio Ymestynnol ar gyfer disgyblion blwyddyn 6

CADY Ysgolion Cynradd

- Trafod disgyblion ADY gyda Staff Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
- Trosglwyddo gwybodaeth mewn cyfarfodydd yn yr ysgolion unigol
- Trosglwyddo proffiliau dysgwyr unigol i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed
- Gwneud defnydd effeithiol o Edukey wrth drosglwyddo gwybodaeth

Cefnogi lles ac anghenion dysgu pob unigolyn drwy'r rhaglen bontio

Darpariaeth gyffredinnol	Darpariaeth wedi'i dargedu e.e. ADY, CLA
Arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7 yn ymweld â'r ysgolion cynradd gyda dysgwyr blwyddyn 7 presennol. Nod hyn yw lleddfu pryderon ac ofnau.	CADY YGGIC yn cyfarfod gyda rhieni grŵp penodol o ddysgwyr er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rannu a bod perthynas cadarnhaol yn cael ei adeiladu rhyngddynt. CADY YGGIC yn mynychu adolygiadau blynyddol ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 5 a 6.
Rhannu gwybodaeth rhwng yr ysgolion cynradd a'r uwchradd. Canolbwyntio ar ddysgu a lles.	Ymweliadau ysgol ychwanegol ar gyfer dysgwyr ADY/CLA a'u rhieni.
Arweinydd lles a chynnydd blwyddyn 7 i gyfarfod athrawon blwyddyn 6 i drafod pob dysgwr yn unigol er mwyn gwneud yn siŵr fod pob un yn derbyn cefnogaeth lawn yn ystod ac ar ôl pontio.	Pontio estynedig ar gyfer dysgwyr CLA - cyfle i gyfarfod y cydlynydd.
Nosweithiau pontio rhieni blynyddoedd 5 a 6. Cyfle i rieni gyfarfod aelodau allweddol o dîm yr ysgol uwchradd, profi gweithgareddau cwricwlaidd ac i ymgyfarwyddo â'r safle.	Diwrnodau pontio estynedig ar gyfer dysgwyr sydd gyda phroffil un tudalen gyda targedau neu gynllun dysgu unigol.
Ymweliad pontio i bob dysgwr - diwrnod llawn er mwyn cyfarfod athrawon, mynychu gwersi a chael blas ar fywyd ysgol uwchradd.	CADY YGGIC yn ymweld â CADY yr ysgolion cynradd er mwyn tarfood dysgwyr ADY gan gynnwys proffiliau un tudalen gyda targedau a cynlluniau dysgu unigol.
Prospectws yr ysgol yn cael ei rannu sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol am Ysgol gyfun Gwent Is Coed.	Dysgwyr ADY yn derbyn llyfryn pontio personol sydd wedi'i addasu i'w hanghenion unigol.
	Cyfarfodydd ymgysylltu gyda dysgwyr a rhieni y dysgwyr hynny sydd gyda phresenoldeb isel sy'n eu hatal rhag gwneud cynnydd digonol.
	Cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a lles.

Clwstwr Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

EIN TAITH DYSGU PROFFESIYNOL

2019 - 20

Datblygu addysgeg drwy ail ymweld ag hyfforddiant Llais 21

Datblygu addysgeg drwy hyfforddiant Athroniaeth i Blant a strategaethau Drama.

Datblygu arweinwyr ysbrydoledig drwy hyfforddiant arweinyddiaeth Floyd Wilson: 'Compass for Life'

2020 - 21

2021-2022

Datblygu dealltwriaeth gyffredin ar draws y clwstwr drwy ddatblygu gweledigaeth gytun ar gyfer y 6 MDaPh yn cynnwys mewnbwn gan holl randdeiliaid y clwstwr.

Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel a chyd ddealltwriaet wrth gychwyn ar waith cysoni cysyniadau pob MDa Ph gan ddilyn model y GCA.

Sicrhau cyd ddisgwyliadau drwy rhannu rhestri genres laith ar draws y clwstwr

2022 - 23

Sicrhau cyfloedd ar gyfer deialog broffesiynol barhaus drwy gyfres o gyfarfodydd staff wedi eu cynnal i barhau a'r gwaith ar gysyniadau'r MDaPh

Sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddilyniant o fewn: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r Dyniaethau

Sicrhau ysgolion cryf, cynhwysol wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles drwy hyfforddiant i gynorthwywyr wedi ei gynnal gan y Tim 'InReach:
*Deall a chefnogi gorbryder a gofid.
*Deall ac ymateb i drallod
*Cyflwyniad i ADHD

Polisi Presenoldeb Clwstwr wedi ei fabwysiadu

Esboniadau terminoleg Celfyddydau Mynegiannol wedi eu creu a sesiynau Dysgu Profesiynol wedi eu cynnal i sicrhau cyd ddealltwriaeth .

Adran Fathemateg Gwent Is Coed wedi cwrdd i ...

2023 - 24

Gweithgor Llythrennedd yn cychwyn ar waith

- i godi gysoni rheolau euraidd ar draws y clwstwr
- i greu proffil ysgrifennu clwstwr

Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel drwy

- hyfforddiant Cwestiynu effeithiol dan arweiniad y GCA
- Prosiect Dan Arweiniad Yr Athro Mick Waters / GCA : Deall dilyniant gyda ffocws ar resymu.
- Dysgu Proffesiynol i gynorthwywyr: Gloywi Iaith
- Hyfforddiant Gyrfaoedd Cymru ar y Thema Trawsgwricwlaidd : Addysg Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig a byd gwaith

Gweithdrefnau Asesu ysgolion cynradd wedi eu rhannu ac adroddiad i rieni cyson ar draws y Clwstwr wedi ei mabwysiadu er mwyn sicrhau trefniadau asesu, gwethuso ac atebolrwydd cadarn a chyson sy'n cefnogi system hunanwella.

Cyfarfod Cynllunio Strategol

2024-2025

Parhau i ddatblygu professiwn addysg o ansawdd uchel drwy barhau a phrosiect Dan Arweiniad Yr Athro Mick Waters / GCA : Deall dilyniant gyda ffocws ar resymu.